

Addasu er mwyn ffynnu

Y mae Mones Farah, Archddiacon Cymunedau Eglwysi Newydd, yn ystyried gweinidogaeth y dyfodol

Un o'r dyfyniadau sy'n cael ei leisio'n aml o theori esblygiad Darwin yw 'parhad y trechaf'. Pan edrychir yn fanwl ar hyn, credaf ei fod yn disgrifio y rheiny sy'n gallu addasu orau i'w amgylchedd er mwyn parhau a ffynnu. Efallai bod angen cadw'r slogan 'Parhad y rhai sy'n gallu addasu orau' o'n blaenau a gadael iddo ddylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gweithredoedd.

Y mae edrych ar y bywiogrwydd wrth i'n heglwysi addasu i'r cloi, a chau ein hadeiladau eglwysig, yn galonogol dros ben. Defnyddiwyd pob ffordd posibl o gadw ein cynulleidfaoedd, ac mewn rhai achosion, eraill a fyddai'n ystyried eglwys, gyda rhannu adnoddau print, galwadau ffôn, cyfryngau cymdeithasol (Facebook, YouTube, Instagram) a llwyfannau busnes (Zoom, Skype, a MS Teams.)



Wynebwyd yr her gan bob math o eglwys, eglwysyddiaeth ac ysbrydolrwydd mewn modd perthnasol a rheolaidd – diolch. Yn fwy na dim diolch am ddarganfod a byw y ffaith eich bod yn Eglwys, gyda neu heb yr adeiladau yr ydych yn eu caru ac yn gofalu amdanynt.

Wrth i amser symud ymlaen, y mae'r cloi yn llacio'n raddol. Y mae cyfarfod yn ein hadeiladau eglwysig yn dechrau cael ei ganiatau, a, gyda datblygiad gwyddonol, byddwn yn symud i fydd ar ôl cyfyngiadau Covid-19. Ond beth wedyn?

Fe fyddai'n rhy hwyr i ofyn y cwestiwn 'beth wedyn' pan fod y cyfyngiadau drosodd, rhaid ystyried y cwestiwn nawr; y mae llawer yn gwneud hynny yn barod, gyda llawer o drafod a dysgu yn digwydd. Y mae y rhan fwyaf yn siarad am gymysgedd o fynegiant ysbrydol a litwrgaidd yn ymddangos, ond yn aml yr ydym yn siarad am ein heglwysi yn parhau gyda'u gweinidogaeth arlein ochr yn ochr â dychwelyd i'r eglwys, mewn person, addoli a mynegiant litwrgaidd.

Y mae hwn yn syniad gwych ac enfawr. Serch hynny, y mae'n rhaid i ni hefyd ystyried gweinidogaeth ddigidol berffaith, wedi ei chynhyrchu mewn modd i ddenu y rhai nad ymunodd eto gyda'n cymunedau a theuluoedd eglwysig. Felly, y mae llawer ohonom wedi bod yn meddwl am ddatblygu gwahanol fynegiant eglwysig, yn unol â'r sbectrwm diwinyddol o fewn ein teulu esgobaethol, gan greu eglwys i'w harddangos ym mhob un o'r traddodiadau.

Byddai rhain yn ysbrydoli eraill o fewn yr un traddodiad ond yn y pen draw yn ddeniadol i rai sy ar hyn o bryd tu allan i'n teuluoedd a chynnulleidfaoedd eglwysig.

Cysylltwch os hoffech chi drafod hyn ym mhellach. Y mae'n gyfnod o ddysgu a rhannu ein syniadau a gweddiau fel y gallwn gyrraedd yr ochr arall yn gryfach.